Superfast Business Wales

# Canllaw Busnes

# Meddalwedd Cynhyrchiant ar gyfer Swyddfeydd

Wrth i argaeledd Band Eang Cyflym Iawn wella, nid oes rhaid cyfyngu'r term 'y rhwydwaith' i bobl sydd yn yr un adeilad â chi, a gall gynnwys unrhyw le sydd â chysylltiad â'r Rhyngrwyd.

www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy | 03000 6 03000

Busnes Cymru Business Wales

UNDEB EWROPEAIDD EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Meddalwedd Cynhyrchiant ar gyfer Swyddfeydd

Wrth i argaeledd Band Eang Cyflym Iawn wella, nid oes rhaid cyfyngu'r term 'y rhwydwaith' i bobl sydd yn yr un adeilad â chi, a gall gynnwys unrhyw le sydd â chysylltiad â'r Rhyngrwyd. Hefyd, mae 'y gweithle' wedi peidio â bod yn adeilad mewn man sefydlog, a bellach, gall fod yn gaffi, llyfrgell, derbynfa mewn gwesty neu fwrdd eich cegin. Daw Band Eang Cyflym Iawn â'r swyddfa atoch chi, ble bynnag y boch.

## Beth yw 'cynhyrchiant swyddfa', a pham mae'n bwysig i chi

Mae cynhyrchiant swyddfa yn caniatáu i nifer o unigolion gydweithio, adolygu a rhannu pob mathau o ddogfenni, taenlenni, cyflwyniadau, diagramau, nodiadau a syniadau. Roedd llawer wrth gwrs wedi arfer defnyddio pecyn swyddfa unigol ac roedd y newid i weithio ar 'swît swyddfa' yn seiliedig ar gwmwl (fel Google Docs neu Microsoft 365) yn ffordd newydd o weithio. Roedd cynnyrch o'r fath,a ddefnyddiwyd drwy Fand Eang Cyflym Iawn, yn golygu y byddai defnyddwyr yn dal yn gallu bod yn gynhyrchiol heb orfod bod yn y swyddfa.

Yn achos sefydliadau mwy sydd eisoes â rhaglenni mewnol megis SharePoint, mae nifer yn sicrhau eu bod ar gael i ddefnyddwyr o bell trwy gyfrwng y Rhyngrwyd, ond yn achos y rhan fwyaf o sefydliadau llai neu sefydliadau newydd, byddant yn dewis platfform cwmwl megis Google Docs neu Office365 o'r dechrau cyntaf.

Mae tanysgrifiadau sylfaenol ar gael am ychydig o bunnoedd fesul defnyddiwr fesul mis, felly mae'n gwneud mwy o synnwyr i sefydliadau bychan fynd yn syth i'r cwmwl yn lle buddsoddi mewn gweinyddion mewnol drud a swyddfa i'w cadw.

## Deall

## Beth Mae'r Dechnoleg Yn Ei Wneud?

### Pa fanteision ychwanegol a geir gan y cwmwl?

Mae'r cwmwl yn caniatáu i rywun weithio yn unrhyw le sydd â chysylltiad â'r Rhyngrwyd (neu gysylltiad Rhyngrwyd symudol). Mewn swyddfa draddodiadol, mae 'bod yn y swyddfa' yn golygu 'ddim gyda chleientiaid, cwsmeriaid na darpar gwsmeriaid'. Fodd bynnag, gall y cwmwl gynyddu'r amser y gall eich gweithwyr ei neilltuo i weithgareddau creu incwm, trwy leihau'r amser a dreuliant yn y swyddfa. Gan ddefnyddio rhaglenni sy'n seiliedig ar gwmwl, gellir cynyddu

neu leihau nifer y defnyddwyr heb orfod newid gweinyddion na phrynu rhagor o offer rhwydweithio neu storio. Cynlluniwyd y cwmwl i fod yn ddatrysiad ‘talu wrth ddefnyddio’.

## Sut mae hyn yn wahanol i ddefnyddio Office a chyfrif DropBox rhad ac am ddim?

Mewn sawl ffordd, mae meddu ar becyn cynhyrchiant swyddfa ar-lein yn debyg i fod â set o raglenni swyddfa traddodiadol wedi'u gosod ar gyfrifiadur ynghyd ag offeryn cysoni ar-lein megis DropBox, ond mae'n cynnig nifer o fanteision allweddol eraill hefyd.

Gan amlaf, bydd datrysiad o’r math a gynigir gan ‘DropBox’ wedi’i gynllunio i’w ddefnyddio gan un unigolyn i gysoni’r un wybodaeth ar draws nifer o ddyfeisiau sy’n eiddo i’r un unigolyn. Pan fydd un unigolyn yn addasu dogfen, gan amlaf, trosysgrifir y fersiwn flaenorol yn hytrach nag ychwanegu rhannau penodol i’r ddogfen yn gydweithredol.

Yn ychwanegol i hyn, bydd sefydliadau yn aml yn dymuno rheoli pa ddefnyddwyr all gyrchu rhai ffolderi a dogfennau, a sicrhau nad yw rhai ffeiliau megis lluniau, fideos neu gerddoriaeth personol yn weladwy i aelodau staff eraill.

Felly, yn gryno, mae’r dechnoleg yn gweithio mewn ffordd debyg, ond mae datrysiadau cynhyrchiant swyddfa seiliedig ar y cwmwl wedi’u cynllunio gan ystyried anghenion sefydliadau, ac maent wedi’u hintegreiddio'n dynn â’r rhaglenni a ddefnyddir i greu ac addasu'r mathau hyn o ddogfennau.

Mae’r nodweddion cydweithio ac adolygu ‘aml-ddefnyddiwr’ yn golygu y gellir ymgorffori sylwadau, cywiriadau neu ychwanegiadau bob defnyddiwr at waith pobl eraill, ac ni chaiff y gwaith hwn ei drosysgrifo na'i ddisodli.

Gellir trin dogfennau, cynlluniau a chyflwyniadau yn debycach i fwrdd gwyn, lle bydd gan bob unigolyn ei bin ysgrifennu ei hun i ychwanegu sylwadau ac awgrymiadau at un fersiwn o’r ddogfen ar yr un pryd.

## Sut all fy nghynorthwyo i gydweithio â chydweithwyr?

Fel y dywedir uchod, mae pecyn rhaglenni cynhyrchiant a chydweithio swyddfa go iawn yn caniatáu i sawl defnyddiwr weithio ar yr un ddogfen ar yr un pryd, neu ddethol dogfen i weithio arni’n unigol, ac yna caniatáu i ddefnyddwyr eraill gael mynediad at y ddogfen unwaith yn rhagor ar ôl i unigolyn orffen gweithio arni (yn dibynnu ar ba ddull bynnag sy’n fwyaf addas iddynt ar y pryd).

## Sut all fy helpu i weithio gydag amrywiaeth o ddyfeisiau gwahanol?

Mae pecynnau cynhyrchiant swyddfa seiliedig ar gwmwl wedi’u cynllunio i weithio ar draws amrywiaeth helaeth o ddyfeisiau a systemau gweithredu. Bydd darparwyr cwmwl yn gweithio’n galed i gynnal yr holl ddyfeisiau mwyaf poblogaidd, ac mae gan rai ohonynt ‘apiau’ penodol y gellir eu llawr llwytho.

Os ydych yn bwriadu defnyddio pecyn o raglenni cynhyrchiant swyddfa ar amrywiaeth o ddyfeisiau symudol, efallai bydd yn werth holi darparwr y pecyn rhaglenni cynhyrchiant swyddfa

neu weithgynhyrchwr y ddyfais, i weld a yw'r dyfeisiau rydych yn eu hystyried yn gydnaws, neu a oes ap penodol ar gael.

Lle mae ap penodol ar gael, bydd y profiad i ddefnyddwyr fel arfer yn well na gweithio gyda thudalennau gwe sydd wedi'u cynllunio i edrych fel apiau (fe'u gelwir yn aml yn 'Apiau Gwe').

# Mabwysiadu

## Sut Alla I Gychwyn?

### Trefnu cyfnod prawf

Bydd bron iawn pob darparwr cwmwl yn caniatáu cyfnod prawf ichi cyn prynu. Yn wir, bydd mwyafrif darparwyr cymylau yn cynnig rhyw fath o 'fersiwn cyfyngedig rhad ac am ddim' i ddenu defnyddwyr i ddewis fersiwn gwell y mae'n rhaid talu amdano. Yn aml iawn, bydd darparwyr cymylau yn disgrifio'r fersiwn am ddim a ddefnyddir i annog defnyddwyr i ddewis fersiynau gwell fel model 'free-mium' (i ddisgrifio natur y cyfnod prawf). Mae'r adran 'Rhagor o Wybodaeth' ar ddiwedd y canllaw hwn yn darparu dolenni at rai o'r gwasanaethau cwmwl mwyaf poblogaidd sy'n cynnig cyfnodau prawf am ddim.

### Ystyriaethau diogelwch

Fel unrhyw ddata sy'n gyfrinachol neu'n sensitif yn fasnachol, neu ddata allai ddatgelu hunaniaeth rhywun, rhaid cymryd camau i ystyried 'diogelwch data' a 'gwarchod data'.
Dylai unrhyw gyfrineiriau a ddefnyddir i gyrchu gwasanaethau ar-lein gynnwys cymysgedd o brif lythrennau a llythrennau bach a rhifau (o leiaf) i'w gwneud hi'n anodd i ddefnyddwyr anawdurdodedig ddyfalu cyfrineiriau yn rhwydd a chyrchu'r data.

### Materion cydweddu

Yn yr un modd ag unrhyw feddalwedd neu wasanaethau cyfrifiadurol, dylech wneud prawf bychan yn gyntaf i brofi'r holl ddyfeisiau rydych yn eu hystyried cyn gosod archeb sylweddol neu lofnodi cytundeb. Os oes gennych unrhyw amheuon, ceisiwch siarad â chyflenwr y cwmwl neu werthwr y caledwedd cyn gwneud penderfyniad, neu gofynnwch am ddatrysiad sydd eisoes wedi'i ardystio fel un sy'n gweithio gan y gwerthwyr.

### Dewis darparwr

Wrth ddewis darparwr, dylech ystyried pa mor ddibynadwy oedd gwasanaeth y darparwr yn y gorffennol. Yn aml iawn, mesurir dibynadwyedd fel canran 'amser mynd'. Defnyddir amser mynd i gynnig awgrym (ond nid sicrwydd) o ba mor aml y bydd gwasanaeth 'ar fynd' yn ystod mis, chwarter neu flwyddyn. Yn aml iawn, mesurir argaeledd fesul 'naw', a 'phum naw' yw'r gorau y gall hyd yn oed y cwmnïau mwyaf obeithio'i gyflawni.

| Argaeledd % | Amser di-fynd bob blwyddyn | Amser di-fynd bob mis* | Amser di-fynd bob wythnos |
|---|---|---|---|
| 99% ('dau naw') | 3.65 diwrnod | 7.20 awr | 1.68 awr |
| 99.9% ('tri naw') | 8.76 awr | 43.8 munud | 10.1 munud |
| 99.99% ('pedwar naw') | 52-56 munud | 4.32 munud | 1.01 munud |
| 99.999% ('pum naw') | 5.26 munud | 25.9 eiliad | 6.05 eiliad |

## Ymelwa

# Pa Fanteision Busnes Alla I Ddisgwyl Eu Cael?

### Hyblygrwydd a gweithio symudol

Pan fydd gweithiwr yn gallu gweithio tra bydd allan o'r swyddfa neu'n teithio, bydd yn golygu y daw taith ar drên, caffi, derbynfa neu ystafell mewn gwesty yn swyddfa symudol, a bydd yn caniatáu i'r gweithiwr ddefnyddio'r ddyfais sy'n fwyaf addas iddo ar adeg benodol.

Wrth weithio o gartref, gallai'r ddyfais fod yn liniadur neu'n gyfrifiadur personol wedi'i gysylltu â chysylltiad band eang cyflym iawn, ac wrth deithio, neu ar safleoedd cwsmeriaid, gallai fod yn gyfrifiadur tabled neu ffôn clyfar sy'n defnyddio cysylltiad Rhyngrwyd WiFi neu symudol 3G/4G.

### Lleihau costau uwchraddio meddalwedd drud

Mewn llawer o sefydliadau, mae'r meddalwedd a ddefnyddir yn gyfyngedig i system weithredu benodol megis Windows XP neu Windows 7, ac mae'r systemau gweithredu hynny yn gyfyngedig i galedwedd penodol megis cyfrifiadur bwrdd gwaith neu liniadur.

Lle bydd cynhyrchiant swyddfa yn seiliedig ar raglenni yn lle dyfeisiau, ni fydd rhaid ichi newid y caledwedd er mwyn diweddaru'r rhaglenni. Yn achos BYOD (Dewch â'ch Dyfais Eich Hun), efallai y gallai'r defnyddwyr ddarparu'r holl galedwedd eu hunain, gan ganiatáu i'r sefydliad arbed y gost o brynu a chynnal offer (bob 3-5 mlynedd gan amlaf).

### Diweddaru fersiynau, storio a gwneud copïau wrth gefn o ddogfennau yn awtomatig

Mae gan bron iawn bob pecyn rhaglenni cynhyrchiant swyddfa sydd ar gael ryw fath o gyfleuster rheoli fersiynau a bydd yn cadw fersiynau o ddogfennau y gellir edrych arnynt neu droi'n ôl atynt os gwneir camgymeriad neu os llygrir dogfen.

I alluogi'r amrywiaeth o nodweddion diweddaru ac adolygu fersiynau, bydd angen i ddarparwyr pecynnau cynhyrchiant swyddfa wneud copïau wrth gefn yn awtomatig o ddogfennau wrth i ddefnyddwyr weithio arnynt, a chadw sawl fersiwn o adegau gwahanol. Bydd darparwr y cwmwl yn gwneud y copïau wrth gefn hyn yn awtomatig i ddefnyddwyr terfynol, felly nid oes rhaid i'r sefydliad wneud ei gopi ei hun hefyd.

### Cysoni dogfennau yn awtomatig rhwng dyfeisiau

Lle bydd gan ddefnyddiwr sawl dyfais, gellir cysoni dogfennau'n awtomatig rhyngddynt. Gellir defnyddio unrhyw ddogfennau sydd eisoes wedi'u storio ar y ddyfais tra bydd y defnyddiwr 'all-lein', a chaiff unrhyw ddogfennau neu newidiadau eu hanfon yn awtomatig pan fydd y ddyfais ar-lein unwaith yn rhagor. Yn syml, ni fydd rhaid ichi fod ar-lein trwy'r adeg i weithio ar ddogfen, dim ond i ddiweddaru'r cwmwl ag unrhyw fersiynau newydd y byddwch wedi bod yn gweithio arnynt pan oedd eich dyfais heb ei chysylltu â'r we.

Cafodd y canllaw rydych yn ei ddarllen nawr ei gynhyrchu ar ddau liniadur gwahanol, a'i adolygu ar ffôn clyfar a chyfrifiadur tabled heb orfod anfon copïau rhwng dyfeisiau. Wrth weithio ar y canllaw hwn yn y swyddfa neu gartref, defnyddiwyd gliniadur pwerus â batri sy'n parhau am dair awr, sgrin fawr a bysellfwrdd maint llawn, ac wrth deithio, defnyddiwyd gliniadur llawer llai (tua'r un maint â llyfr clawr caled) sydd â batri a all bara am naw awr, a chludid y lleiaf o'r rhain mewn bag cefn a'i ddefnyddio hwnt ac yma.

Un arall o fanteision defnyddio cysoni awtomatig yw'r ffaith y gellir defnyddio dyfais newydd yn lle unrhyw ddyfais a gollir, a gaiff ei dwyn neu a ddifrodir, a bydd yr holl ddogfennau oedd gan y defnyddiwr ar gael yn awtomatig ar y ddyfais newydd.

### Cydweithio heb orfod defnyddio e-bost

Cyn i gyfresi meddalwedd cynhyrchiant swyddfa ar-lein ddod yn boblogaidd, roedd e-bostio dogfennau rhwng pobl wrth iddynt gael eu hysgrifennu yn arfer cyffredin. Yn ogystal â'r anghyfleustra o anfon sawl e-bost ag atodiadau, a blychau negeseuon e-bost yn llawn dogfennau oedd wedi'u hen ddiweddaru, roedd fersiynau yn aml yn anghyson.

Nid oedd yn anghyffredin gweld sawl fersiwn o'r un ddogfen yn yr un ffolder heb unrhyw beth i nodi ai'r ddogfen ddiweddaraf oedd hi ac a oedd unrhyw sylwadau ar goll, neu a oedd unrhyw sylwadau blaenorol wedi'u trosysgrifo. Weithiau, byddai gan bob defnyddiwr ei drefn rhifo ei hun a fyddai'n cael ei gyfuno â system rifo a labelu pawb arall gan greu nifer o enwau dryslyd iawn megis 'presentation-v4-final-with-daves-comments-rev2-final-check-for-ACME'.

Mae system diweddaru fersiynau ac adolygu gan sawl defnyddiwr yn golygu y gall pawb fod â'r fersiwn ddiweddaraf o 'Presentation-for-ACME' heb orfod mynd ati i e-bostio ffeiliau na gorfod newid enw dogfen yn rheolaidd i ddisgrifio sut mae'n wahanol i'r fersiynau eraill sy'n bodoli.

## Awgrymiadau Ardderchog

### Ystyriwch dreialu meddalwedd cyn ymrwymo i brynu

Ystyriwch ddefnyddio treial o wasanaeth tanysgrifio megis Office 365 neu Google Docs i ddod yn gyfarwydd â'r fersiynau 'Cwmwl' newydd o raglenni tebyg.

### Adolygwch yr opsiynau rhad sydd ar gael trwy raglenni Cod Agored

Ystyriwch ddefnyddio cyfres am ddim/Cod Agored megis OpenOffice neu LibreOffice fel dewis yn lle'r cynnyrch 'gorau o'u math', drutach i'w brynu ac i danysgrifio.

### Ystyriwch ddefnyddio apiau symudol

Os oes ‘apiau symudol’ ar gael ar gyfer y gwasanaethau rydych yn eu treialu, yna bydd gosod un o’r rhain yn aml yn gwneud y gwasanaeth yn haws i’w ddefnyddio ac yn llai ‘trwsgl’ na defnyddio porwr y we ar sgrin lai.

### Profwch fanteision cydamseru

Os oes gennych fwy nag un cyfrifiadur, gliniadur neu ddyfais symudol, ceisiwch gydamseru’r un cyfrif rhwng pob dyfais ar yr un pryd.

### Defnyddiwch fonitorau allanol ar gyfer cyflwyniadau

Mae gan y rhan fwyaf o dabledi addaswyr atodol ar gael y gellir eu defnyddio i’w cysylltu i fonitor neu daflunydd allanol i’w defnyddio i roi cyflwyniad gerbron cynulleidfa neu o gyfres cynhyrchiant swyddfa.

### Defnyddiwch drip busnes i dreialu gwahanol opsiynau

Os ydych yn gwybod bod gennych daith neu drip busnes ar y gweill, beth am geisio creu darn o waith yn defnyddio cwmwl neu gyfres cynhyrchiant ar-lein, a gweithio arno o wahanol ddyfeisiau cyfrifiadura, tabledi neu ffonau clyfar.

## Y CAMAU NESAF

1. **Cofrestrwch i fod yn bresennol mewn Gweithdy Datblygu Busnes wedi'i ariannu'n llawn:**
   **http://business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/digwyddiadau**

2. **Trefnwch apwyntiad i weld Ymgynghorydd Buses a fydd yn eich helpu I greu cynllun gweithredu personol i dyfu'ch busnes:**
   **http://business.wales.gov.uk/cy/cysylltwch-a-ni**

## Cadwch eich bys ar y pwls gyda Cyflymu Busnesau Cymru

Gweld sut mae busnesau eraill yng Nghymru wedi ymelwa o Fand Eang Cyflym Iawn:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/straeon-llwyddiant-cyflym**

---

Canfod faint allai'ch busnes chi arbed gyda'r cyfrifiannell arbedion:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/cyfrifwr-arbedion**

---

Mae Canllawiau Busnes eraill a allai fod o ddiddordeb i chi yn cynnwys:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/canllawiau-busnes-cyflym-iawn**

---

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf yn fisol ar ddatblygiad busnes, newyddion technoleg a digwyddiadau tanysgrifiwch i Daflen Newyddion Busnes Cymru:
**https://public.govdelivery.com/accounts/UKWALES_CY/subscriber/new**

---

Am ragor o wybodaeth ffoniwch 03000 6 03000 neu ymwelwch â:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy**